**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP**

**Friends of National Museum Wales**
**Cathays Park, Cardiff CF10 3NP**

**SADWRN 16 Medi 2017**

**am 10.30 yb yn Theatr Ddarlithio Reardon Smith, Parc Cathays**

# ‘A Welsh Tuscany: the Renaissance in north-east Wales’

**gan Yr Athro Emeritws Prys Morgan**

Traddodir y sgwrs hon gan un o’n siaradwyr mwyaf difyr a dysgedig, Prys Morgan. Mae ef yn Athro Emeritws Hanes Cymru ym Mhrifysgol Abertawe ac yn arbenigo ar hanes y ddeunawfed ganrif a’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae’n awdur llawer o lyfrau ac erthyglau, cyfrannwr cyson i raglenni radio a theledu, ac yn gydolygydd y gyfrol ddiweddaraf yng nghyfres Hanes Sir Gwent. Ar hyn o bryd ef yw Llywydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, yn ogystal â Chymdeithas Archaeolegol y Cambriaid. Ef hefyd oedd un o sylfaenwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Yn ei sgwrs, bydd yr Athro Morgan yn cyfeirio at rai o ffigurau’r Dadeni yn Nyffryn Clwyd a’i gyffiniau o fewn i’r cyfnod, amryw ohonynt yn eithriadol gyfoethog, ac yn rhan o ddiwylliant ehangach a soffistigedig Ewrop, tra hefyd yn arddel eu treftadaeth Gymreig. Er mai gwlad gymharol fechan a thlawd oedd Cymru at ei gilydd, ceid yn nhai mawrion y gogledd-ddwyrain wrthrychau drudfawr fel dysgl arian a phiser William Mostyn ( i’w gweld yn Oriel 10). Byddai’r gwesteion a fwytâi yn ei blasty yn gyfarwydd â syniadau a ffasiynau tu hwnt i ffiniau Cymru.

Y tâl mynediad, i gynnwys coffi a bisgedi yn Ystafelloedd Oriel ar ôl y sgwrs, yw £8 i’r Cyfeillion sydd yn archebu ymlaen llaw, a £10 wrth y drws. Er mwyn manteisio ar y pris gostyngedig hwn, a wnewch chi lenwi’r daflen isod a’i hanfon gyda’ch siec at:

**Ann Saer, 15 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QA (Tel: 029 20562756) erbyn dydd Iau 14 Medi**.
I arbed costau postio, ni fydd cydnabod. Gwnewch ymdrech i ddod – a dewch â’ch ffrindiau hefyd, gan fod y digwyddiad hwn yn agored i’r cyhoedd, ac fe fydd croeso cynnes iddynt hwythau.
……………………………………………………………………………………………………

**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**

**Yr Athro Emeritws Prys Morgan: ‘A Welsh Tuscany: the Renaissance in north-east Wales’**
**Sadwrn 16 Medi 2017 yn Theatr Ddarlithio Reardon Smith**

Carwn i chi gadw……….l(l)e ar gyfer y digwyddiad uchod. Amgaeaf siec am £……(yn daladwy i Gyfeillion Amgueddfa Cymru).

Enw(au)…………………………………Cyfeiriad…………………………………………………..

Cod Post……………..…....    Ffôn ………………………Ebost…………………………………….

Cydnabyddir fy aelodaeth cyfredol o Gyfeillion Amgueddfa Cymru……………………………….